Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Corn Hir
# Llangefni
# Ynys Môn
# LL77 7JB

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/07/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Corn ar safle eang ar gyrion tref Llangefni ar Ynys Môn. Mae'n darparu addysg ddwyieithog i 202 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed, gyda tua 28% ohonynt yn dod o'r tu allan i'r dalgylch. Cânt eu haddysgu mewn saith dosbarth sy'n cynnwys plant o'r un oed.

Mae 68% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel y brif iaith. Cymraeg yw cyfrwng addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Cyflwynir rhaglen astudio Saesneg i ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Disgrifir yr ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 11% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, canran sydd yn sylweddol is na'r ganran leol a chenedlaethol. Mae tua 9% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mehefin 2007. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Corn Hir yn 2012-2013 yw £3,603. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol Corn Hir yn safle 43ain o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol dda oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- presenoldeb y disgyblion yn uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- disgyblion yn ymddwyn yn arbennig o dda;
- yr addysgu yn gyson effeithiol;
- yr ysgol yn cynllunio'n gydlynus ar gyfer datblygu annibyniaeth ymhlith disgyblion;
- disgyblion yn cael eu hymestyn hyd eithaf eu gallu; a bod
- perthnasoedd cadarn rhwng staff a disgyblion yn sicrhau cyfranogiad uchel gan ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- yr ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad blaenorol;
- yr ysgol yn cynllunio i sicrhau gwelliannau yn safonau disgyblion yn effeithiol iawn;
- disgwyliadau cytûn ar gyfer safonau uchel gan ddisgyblion;
- yr ysgol yn adnabod ei hunan yn arbennig o dda trwy fonitro'r addysgu er mwyn gwella ansawdd yn effeithiol;
- y llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn effeithiol; a bod
- yr ysgol yn creu cymunedau dysgu llwyddiannus sydd eisoes yn mynd i'r afael yn effeithiol â chodi safonau.

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Ehangu ar y gwaith a wnaed eisoes i ddatblygu dysgwyr annibynnol, yn enwedig wrth asesu eu gwaith eu hunain

A3 Lledaenu'r arferion da o feithrin arweinwyr ymysg y dysgwyr ac athrawon yn y cymunedau dysgu proffesiynol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

**Arfer ragorol**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae nifer fawr o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gallu siarad yn eglur gydag ystod gynyddol o eirfa a thermau cywir. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 sgwrsio'n hyderus ac yn raenus, yn y Gymraeg a'r Saesneg, gydag oedolion a chyfoedion. Mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn datblygu trafodaethau aeddfed ac ymestynnol, er enghraifft wrth drafod sut i osod targedau ar gyfer eu grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed gyda lleiafrif o ddisgyblion yn darllen ar lefel ymestynnol. Gall llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen drafod a deall testunau'n effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y darllenwyr mwyaf hyderus newid goslef eu llais yn fedrus a mynegi barn yn arbennig o dda wrth drafod testunau.

Mae datblygiad yng ngwaith ysgrifennu'r disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n fedrus ar draws ystod o destunau ac mewn amryw o bynciau ar draws y cwricwlwm. Gall yr ysgrifenwyr gorau greu darnau dychmygus a ffeithiol o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft, ysgrifennu dyddiadur am fywyd plentyn mewn ysgol yn Affrica a bywgraffiadau cyfoethog am gymeriadau mewn stori.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhif a ddysgwyd mewn mathemateg yn effeithiol iawn yn eu gwaith mewn gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth.

Roedd cyflawniad disgyblion yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd yn hawlio prydau ysgol am ddim. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd perfformiad disgyblion mewn iaith a datblygiad personol yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Mae cyraeddiadau'r disgyblion ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg yn ogystal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd cyflawniad disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn y Cyfnod Sylfaen ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer iaith, ond yn y 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd deilliant 6 yn 2012 yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu, yn ogystal â'r ganran genedlaethol.

Yn 2012, roedd cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar sail hawl i brydau ysgol am ddim. Mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ym mhob pwnc craidd yn unigol yn dangos tueddiad o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn y

Gymraeg, mae perfformiad disgyblion yn gyson uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu, ond yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% is.  Mae cyflawniad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae cyflawniad disgyblion ar lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, yn y 25% uchaf ar gyfer mathemateg, ond yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth.

Mae disgyblion sydd â'r hawl am brydau ysgol am ddim, yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

**Lles:  Rhagorol**

Mae'r modd y mae disgyblion yn mynegi eu syniadau ac yn datblygu medrau busnes yn sgil gwaith y cyngor ysgol, y grŵp iach, y criw 'masnach deg' a'r grŵp fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn rhagoriaeth.  Mae hyn yn cynnwys gwneud cyfraniadau arwyddocaol at dargedau gwelliant ysgol, er enghraifft, dethol adnoddau er mwyn gwella safonau rhifedd a llythrennedd.

Mae disgyblion hefyd yn cyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau yn effeithiol iawn wrth holi barn eu cyfoedion a dylanwadu ar eu profiadau yn yr ysgol.  O ganlyniad, maent yn datblygu hyder ac agweddau eithriadol o aeddfed.  Maent yn arddangos medrau personol arbennig o dda drwy gymryd cyfrifoldeb am eu llwyddiant a chyfrannu at ddewis beth maent yn ei ddysgu yn y gwersi.  Mae disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn yn ystod prosiectau busnes a gwerthu ffrwythau.

Teimla'r disgyblion yn ddiogel iawn yn yr ysgol.  Mae'r 'Criw Clên' yn cyfrannu'n dda at les disgyblion eraill.  Mae ymwybyddiaeth ddofn y disgyblion o ffitrwydd a byw'n iach yn amlwg gyda'r 'Clwb dal i fynd' a'r 'Criw ar dy feic' yn boblogaidd gan bron pob un o'r disgyblion.

Mae ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda tuag at ei gilydd, tuag at y staff a thuag at ymwelwyr.  Dangosant barch at bawb o'u cwmpas.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ers pum mlynedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog, gyda'r cwricwlwm yn cael ei drefnu'n gydlynus.  Mae cynlluniau ar gyfer datblygu'r medrau yn fanwl ar draws yr ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu cyflawniadau blaenorol yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ganolbwyntio ar ansawdd eu mynegiant yn Gymraeg yn gyson yn y gwersi, ac anelu am y safonau uchaf. Mae defnydd o adnoddau megis matiau mathemateg i annog datblygiad y plant cryfaf mewn gwaith rhif, a'r defnydd o fagiau llythrennedd i annog cyfranogiad bechgyn yn eu darllen, yn agweddau rhagorol hefyd.

Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, ac mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae'r modd y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer annog disgyblion i fesur eu cynnydd eu hunain yn gryfder arwyddocaol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi ei datblygu'n drwyadl yn yr ysgol. Datblygwyd ymwybyddiaeth sensitif a manwl gan y disgyblion o'r angen i ofalu am yr amgylchedd drwy'r cwricwlwm ac ym mywyd yr ysgol wrth iddynt ailgylchu, arbed egni a dileu gwastraff. Mae'r cynllunio bwriadus i sicrhau dealltwriaeth disgyblion o amgylchiadau, arferion a thraddodiadau gwledydd ar draws y byd yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth ardderchog o'r sialensiau sy'n wynebu plant mewn gwledydd eraill trwy gyswllt agos â phrosiect Omwabini yn Kenya.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn gyson effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion yn eu gofal. Maent yn pennu amcanion eglur ar gyfer eu gwersi ac yn eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu gwaith ymestynnol er mwyn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Gwneir defnydd cyson ac effeithiol iawn o gwestiynu pen agored, sydd yn ychwanegu at gyfleoedd y disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ysgogol, er enghraifft murluniau a chanllawiau er mwyn cefnogi a herio dysgu'r disgyblion. Yn yr addysgu mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cymhwyso medrau mewn cyd-destunau diddorol ac ymarferol.

Mae athrawon yn darparu adborth effeithiol iawn i'r disgyblion, sy'n eu galluogi hwy i fyfyrio ar eu dysgu ac ystyried y camau nesaf sydd angen eu cymryd i ddatblygu ymhellach. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o systemau asesu a monitro cynnydd, gan ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio ar draws yr ysgol, gyda gallu'r disgyblion hŷn i arfarnu eu gwaith eu hunain yn datblygu'n dda. Mae'r rhieni'n derbyn cyfleoedd rheolaidd i drafod cynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r gydberthynas rhwng staff a disgyblion yn neilltuol dda. Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd niferus i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol drwy astudiaethau lleol, cenedlaethol a byd eang. Mae arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn yn effeithiol iawn.

Mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn derbyn cefnogaeth sensitif ac anogaeth i lwyddo. Mae cynlluniau addysg unigol o safon da ac mae'r ysgol yn sicrhau cwricwlwm eang i bob disgybl trwy wahaniaethu'n ofalus. Yn sgil y gefnogaeth hon, maent yn magu hyder ac mae eu hunan-werth yn cynyddu'n sylweddol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gydag asiantaethau allanol arbenigol megis y gwasanaeth seicolegydd addysg, yr heddlu, y gwasanaeth cefnogi ymddygiad a'r swyddog lles. Gwneir defnydd da o'r cymorthyddion, wrth gefnogi grwpiau ac unigolion

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn dda. Caiff holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol eu hadolygu'n gyson a gweithredir hwy'n effeithiol i sicrhau datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn creu ethos cefnogol lle mae ymdrechion a gwaith pawb yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gan yr ysgol awyrgylch teuluol, hapus a threfnus. Mae cyfle cyfartal ar gyfer bechgyn a merched. Mae disgyblion yn gwbl hapus a chyfforddus yn yr ysgol ac mae ganddynt ffydd yn yr athrawon a'r staff ategol sy'n gofalu amdanynt. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn derbyn sylw trwy gynllunio manwl ac effeithiol.

Mae safle a thir yr ysgol yn un symbylus, lliwgar a deniadol. Defnyddir yr holl adnoddau'n effeithiol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion o safon uchel. Maent yn cynnwys gwybodaeth a dadansoddiadau manwl o'r cwricwlwm a bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar ar gyfer chwarae a dysgu yn dilyn argymhellion gan y cyngor ysgol. Caiff yr ardd ei defnyddio'n bwrpasol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff yr holl safle ei gadw'n raenus. Ceir digon o staff ac adnoddau ar gyfer cyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad cadarn i'r ysgol trwy rannu ei gweledigaeth glir o godi safonau ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel am gynnydd pob disgybl. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol ac yn gytûn fel tîm. Mae'r holl staff yn ysgwyddo cyfrifoldebau priodol sy'n dylanwadu'n gryf ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol mewn ystod eang o ddyletswyddau. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol iawn o flaenoriaethau'r ysgol a

pherfformiad y disgyblion. Mae ganddynt bwyllgorau addas a strwythurau effeithiol yn eu lle i oruchwylio rheolaeth ariannol ac i adolygu polisïau a darpariaeth gwricwlaidd yr ysgol. Mae gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni. Maent yn datblygu eu rôl fel cyfeillion berniadol yn effeithiol, gan gynnwys cwestiynu pam y mae gwahaniaeth rhwng cyflawniad gwahanol grŵpiau o ddisgyblion.

Mae mentrau’r ysgol i gwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n effeithiol iawn drwy roi sylw blaenllaw i ddatblygiad yr iaith Gymraeg, gwella medrau rhifedd, lles disgyblion a gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae grŵp fframwaith effeithiolrwydd ysgolion y disgyblion yn chwarae rhan flaengar yn y gwaith o sicrhau gwelliannau’n ymwneud â safonau.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn defnyddio dulliau gwella ansawdd yn effeithiol iawn. Mae hunanarfarnu llwyddiannus wedi gwreiddio’n ddwfn dros nifer o flynyddoedd. Mae’r staff yn monitro'r dysgu a’r addysgu’n fanwl iawn, gyda dadansoddi treiddgar o gyflawniad disgyblion yn arwain yn glir at wella safonau. Rhoddir ystyriaeth fanwl i farn y rhieni, staff a disgyblion.

Mae cynllun datblygu’r ysgol yn ddogfen effeithiol iawn. Mae'r cynllun wedi'i adolygu’n fanwl er mwyn sicrhau cynnydd mewn safonau. Mae ysgrifennu estynedig, cyfranogiad y disgyblion ac asesu ar gyfer dysgu wedi gwella’n sylweddol yn sgil targedu effeithiol iawn. O ganlyniad i’r dadansoddi manwl o waith yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfanu trylwyr, mae’r staff a’r disgyblion yn deall y meysydd mwyaf pwysig sydd angen eu gwella. Mae’r cynllunio effeithiol i wella darllen ymhlith y bechgyn ac ymestyn disgyblion uwch eu gallu mewn mathemateg yn agweddau rhagorol ar wella ansawdd.

Mae dulliau gweithredu cymuned ddysgu broffesiynol yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae’r ysgol yn flaengar wrth gydweithio a rhannu arferion dysgu effeithiol o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill. Enghraifft ragorol o hyn yw’r rhwydwaith mewnol sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar godi cyflawniad disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu a mathemateg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol gyda rhieni a gofalwyr, gyda gwefan yr ysgol yn adnodd da i rannu gwybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r llyfrau cyswllt cartref hefyd yn cryfhau’r bartneriaeth rhwng y cartref a’r ysgol drwy roi cyfle i rieni roi eu barn am sut mae eu plentyn wedi ymdopi â’i waith. Mae’r gymdeithas rieni lewyrchus yn cefnogi’r ysgol yn dda.

Mae cysylltiadau cryf gyda’r ysgol feithrin sydd wedi ei sefydlu ar safle’r ysgol, gyda’r cydweithio a rhannu adnoddau yn hwyluso’r broses o drosglwyddo. Mae gan yr ysgol raglen lwyddiannus i drosglwyddo disgyblion i’r ysgol uwchradd, sy’n cynnwys trefniadau addas ar gyfer cymedroli a safoni asesiadau athrawon.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae partneriaethau da gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol fel gwasanaeth cymorth anghenion dysgu ychwanegol a'r heddlu yn cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol dda gyda cholegau hyfforddi athrawon sydd hefyd yn ychwanegu at ddatblygiad proffesiynol y staff. Mae cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol trwy'r defnydd helaeth a dychmygus o nifer o leoliadau i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, megis Oriel Môn.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arian er mwyn sicrhau bod lefelau staffio'r ysgol yn briodol. Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol gan yr ysgol. Gwneir defnydd addas o arbenigeddau staff i wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau'r disgyblion. Mae staff ategol yr ysgol yn rhan effeithiol iawn o'r tîm ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu, addysgu ac ar rediad rhwydd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr drwy'r ystod o adnoddau dysgu priodol.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad heriol yn arwain at godi safonau. Mae'r amcanion penodol i staff i sicrhau cynnydd disgyblion yn seiliedig ar flaenoriaethau gwella ysgol gyfan. Mae'r rhaglen hyfforddi drwyadl yn ateb gofynion blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Gwna athrawon ac arweinwyr ddefnydd da o amser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae'r ysgol yn llwyddo i dargedu'r cyllid sydd ar gael i weithredu'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyflawniad disgyblion yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd yn hawlio prydau ysgol am ddim. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd perfformiad disgyblion mewn iaith a datblygiad personol yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ac yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Mae cyraeddiadau'r disgyblion ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg yn ogystal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd cyflawniad disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn y Cyfnod Sylfaen ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer iaith ond yn y 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd canran o ddisgyblion a gyrhaeddodd deilliant 6 yn 2012 yn uwch na chyfartaledd ysgolion y teulu, yn ogystal â'r ganran genedlaethol.

Yn 2012, roedd cyflawniad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y dangosydd pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar sail hawl i brydau ysgol am ddim. Mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4), ym mhob pwnc craidd yn unigol, yn dangos tueddiad o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn y Gymraeg, mae cyflawniad disgyblion yn gyson uwch na chyfartaledd cenedlaethol a'r teulu, ond yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% is (er yn agos i drothwy'r 50% uchaf.) Mae cyflawniad disgyblion wrth gyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn ysgrifennu yn y Gymraeg yn is na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ers tair blynedd. Mae cyflawniad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg.

Mae cyflawniad disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, yn y 25% uchaf ar gyfer mathemateg, ond yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth.

Mae disgyblion sydd a'r hawl am brydau ysgol am ddim yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yn cyflawni'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 100 holiadur gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr ysgol. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn fwy positif na'r darlun cyffredinol ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob disgybl yn dweud:

- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd; a'u
- bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yw gwaith yn anodd.

Mae bron pob disgybl yn dweud:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn gofidio; a
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud:

- bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio;
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella gwaith ysgol;
- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae llawer o ddisgyblion yn dweud bod plant yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Ymatebodd 52 o rieni, o'r 155 teulu sydd yn yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r ymatebion yn gyffredinol gadarnhaol, ond mewn rhai agweddau, nid ydynt mor bositif â'r darlun cyffredinol ar draws ysgolion cynradd yng Nghymru.

Dywed pob rhiant bod:

- eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol; a bod
- yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

Dywed bron pob rhiant:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda; a bod
- eu plentyn yn cael eu hannog i gadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Dywed y rhan fwyaf o rieni bod:

- eu plant yn hoffi'r ysgol;
- y plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf;
- eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- nhw'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; a'u
- bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed llawer o rieni eu bod yn:

- credu bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- credu bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Geraint Wyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meinir Hughes | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.